Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Aberporth Bilingual Playgroup
**Y Festri**
**Tŷ Capel**
**Aberporth**
**Aberteifi**
**SA43 2DA**

**Dyddiad yr arolygiad: 22-23 Mai, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**
**Dyddiad cyhoeddi: 22/06/12**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth yn 1961. Mae'n cwrdd yn festri'r capel yn y pentref arfordirol hwn ger Aberteifi, yng Ngheredigion. Mae'n darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed ac yn cyfarfod am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymhorau ysgol. Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o ardal ddaearyddol eang iawn, sy'n cynnwys ardaloedd mwy breintiedig a rhai sydd yn gymdeithasol ddifreintiedig. Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Cofrestrwyd y lleoliad ar gyfer 21 o blant. Yn ystod yr arolygiad, roedd chwe phlentyn yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol a gwneir trefniadau cynhaliol addas ar eu cyfer.

Mae pum aelod o staff sy'n meddu ar gymwysterau perthnasol ar gyfer addysg a gofal plant ifanc. Mae'r lleoliad yng ngofal dwy ymarferwraig arweiniol hynod brofiadol ac fe'i rheolir gan bwyllgor gwirfoddol lleol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym Mawrth 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2011. Mae'r lleoliad wedi derbyn marc ansawdd Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda:

- mae nodweddion rhagorol i'r gweithdrefnau i gefnogi iechyd a lles y plant;
- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu;
- mae'r plant yn cael ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog;
- mae'r addysgu yn dda;
- mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo medrau dwyieithog y plant yn dda; ac
- mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- bod gan yr ymarferwyr arweiniol ddisgwyliadau uchel a'u bod yn cynnig arweinyddiaeth gref;
- bod yr holl ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm;
- yr ymrwymiad a rennir i hyrwyddo datblygiad a lles y plant;
- bod cynlluniau datblygu yn cael eu gweithredu ac yn sicrhau gwelliannau; a
- chaiff adnoddau eu defnyddio'n dda i gefnogi'r dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau llafar y plant;

A2 ehangu ymhellach fedrau dysgu y plant mwy galluog; a

A3 datblygu cynllunio'r cwricwlwm a gwneud mwy o ddefnydd o ganlyniadau asesu wrth adnabod y camau nesaf yn nysgu plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Gwna'r plant gynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae medrau gwrando a chanolbwyntio bron bob plentyn yn dda. Mae ychydig o'r plant yn siarad yn eglur ac yn gallu cynnal sgwrs syml yn hyderus ond ymatebion byr iawn a geir gan lawer o blant. Mae gan y plant wybodaeth gynyddol o rai o brif lythrennau'r wyddor ac maent yn mwynhau edrych ar lyfrau a'u trin. Gallant adnabod eu henwau mewn print. Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau a gallant eu canu'n dda. Defnyddiant offer gwneud marciau yn bwrpasol mewn gwahanol gyfryngau, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o rai o bwrpasau ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos dealltwriaeth dda o gyfarchion, cyfarwyddiadau a storïau yn Gymraeg. Canant ganeuon yn frwdfrydig a defnyddiant eirfa gyfarwydd yn dda er mwyn cyfrif ac ar gyfer disgrifio'r tywydd.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau beunyddiol. Mae bron bob un ohonynt yn cyfrif i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol, fel mawr a bach, llawn a gwag, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gwyddant enwau siapiau sylfaenol a deallant fod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Defnyddiant eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i gwblhau tasgau rhif, paentio darluniau a chreu patrymau. Gyda chymorth, gallant fwydo cyfarwyddiadau i gynllunio taith ar gyfer tegan rhaglenadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus yn archwilio ac arbrofi gyda chyfleoedd dysgu newydd a gwnânt ddefnydd cynyddol o'u medrau mewn nifer o dasgau mathemategol, corfforol a chreadigol. Arddangosant ddefnydd da o fedrau llawdrin mân wrth ddefnyddio offer i dorri, paentio a gludo.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth ddatblygol o bwysigrwydd ymarfer corff a bwyta'n iach. Cymerant gyfrifoldeb cynyddol am eu hylendid personol a deallant bwysigrwydd golchi eu dwylo'n rheolaidd.

Mae pob plentyn yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn barod i ofyn am gymorth a chynhaliaeth. Mae bron bob plentyn yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn awyddus i gael profiadau newydd. Gweithiant yn gydwybodol ar eu tasgau a chwaraeant yn hwylus gyda'i gilydd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol fel cymuned glòs ac yn llwyddo i hyrwyddo ymwybyddiaeth a medrau cymdeithasol y plant. Mae bron bob plentyn yn dangos cwrteisi ac ystyriaeth i eraill. Mae parodrwydd y plant hŷn i gynnal a chefnogi'r plant ieuengaf yn nodwedd glodwiw. Mae safonau ymddygiad y plant yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a diddorol sy'n llwyddo'n gyson i ennyn diddordeb y plant. Mae'r cynllunio'n seiliedig ar ganlyniadau dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r cynllunio weithiau'n rhy gyffredinol i sicrhau cydbwysedd a chynnydd cyson yn y dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynnig cyfleoedd da i blant i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i wrando ar storïau, siarad am eu profiadau, edrych ar lyfrau a defnyddio eu medrau marcio. Gwneir defnydd effeithiol o symbyliadau, megis tyfu planhigion tomato, er mwyn datblygu medrau arsylwi'r plant, eu medrau mathemategol ymarferol a'u medrau tynnu llun a phaentio. Rhoddir pwyslais cyson ar ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol er mwyn eu galluogi i ffurfio perthnasoedd da gyda phlant eraill ac oedolion.

Mae gweithgareddau pwrpasol yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr amgylchedd a phopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion, plannu llwyni a llysiau, a dysgu am ailgylchu. Gwneir defnydd effeithiol o'r traeth lleol i ddysgu plant am greaduriaid y môr, cregyn ac effaith llygredd ar yr amgylchedd.

Mae ymweliadau â'r farchnad ac â chanolfannau anifeiliaid yn ymestyn dysgu'r plant ymhellach.

Mae gweithgareddau dysgu effeithiol, gan gynnwys profiadau creadigol o bob math, yn meithrin ymwybyddiaeth plant o'r byd ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys dathlu gwyliau a dathliadau diwylliannau eraill megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Gwneir darpariaeth dda i'r plant ddysgu'r iaith Gymraeg. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwrando ar storïau, canu caneuon a rhigymau, cyfrif a thrafod y tywydd. Mae sesiynau stori yn achlysuron difyr iawn a chânt effaith dda iawn ar ddiddordeb ac ymgysylltiad plant. Mae'r plant yn dysgu hefyd am draddodiadau a dathliadau Cymreig trwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn dysgu Cymraeg a defnyddiant gyfleoedd rheolaidd i hyrwyddo'r defnydd achlysurol o'r iaith trwy gydol y sesiwn. Mae hon yn nodwedd dda iawn.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda a gwneir defnydd effeithiol o sawl dull addysgu i symbylu diddordeb ac ymgysylltiad plant. Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chynlluniant weithgareddau ar y cyd. Gwneir defnydd pwrpasol o offer ac adnoddau i gynnal a chefnogi'r dysgu. Yn ystod gweithgareddau, megis chwarae rôl, gweithgareddau adeiladu a chrefft, a sesiynau adrodd stori, mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol iawn gyda phlant ac yn eu hannog i gyfranogi'n llawn. Er hynny, nid yw gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ddigonol bob tro er mwyn ymestyn dysgu plant yn ddigonol, ac yn enwedig felly'r plant mwy galluog.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn rheolaidd. Caiff arsylwadau dyddiol eu dadansoddi ac mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi'n systematig. Fodd bynnag, nid yw'r ystod o wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n llawn i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant. Mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am gyflawniadau, lles a datblygiad plant trwy drafodaethau anffurfiol a sesiynau adborth mwy strwythuredig. Maent hefyd yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig llawn gwybodaeth ar gynnydd eu plant wrth iddynt adael y cylch chwarae. Trefnir Bore Coffi Graddio a chyflwynir tystysgrif ymadael i'r plant hŷn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gofal, cynhaliaeth ac arweiniad o ansawdd uchel yn nodwedd allweddol o weledigaeth yr ymarferwyr arweiniol ar gyfer gwaith y lleoliad. Mae mentrau a drefnwyd yn dda ac ymrwymiad i iechyd emosiynol a lles plant yn gwneud cyfraniad effeithiol iawn i hyrwyddo datblygiad cyffredinol plant a'u parodrwydd i ddysgu. Mae effaith y mentrau yma ar feithrin hunan-barch plant a'u hyder fel dysgwyr yn nodwedd ragorol.

Mae'r trefniadau cynefino, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da iawn. Maent yn fodelau rôl effeithiol iawn ac yn trin pob plentyn gyda pharch a chwrteisi.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae ymarferwyr yn manteisio ar hyfforddiant cyson a chaiff asesiadau risg eu gweithredu'n rheolaidd. Maent yn gwybod yn iawn sut i ymateb yn briodol os yw heriau'n codi o ran

agweddau megis ymddygiad gwael neu ddiogelu plant. Maent yn adnabod anghenion plant yn gynnar ac yn gweithio'n gydwybodol gydag asiantaethau priodol i sicrhau bod y rhain yn cael sylw. Mae plant yn hapus a diogel yng nghwmni'r oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth.

Mae'r lleoliad yn rhagweithiol yn adeiladu ar y cydweithio gydag asiantaethau allweddol eraill i gefnogi plant a'u rhieni. Trwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu'n effeithiol i grwpiau o blant bregus, gwelwyd gwelliant amlwg o ran agweddau, ymddygiad, hyder a chyflawniad. Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn gyda rhieni i gynnal a chefnogi eu datblygiad addysgol personol eu hunain a datblygiad eu plant. Fel rhan o raglen rianta effeithiol iawn, darperir ystod o weithgareddau, lleoliadau a threfniadau cymorth yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hapus i ddarparu cymorth unigol i roi mwy o gymorth i rieni fanteisio ar a chwblhau unrhyw gyfleoedd hyfforddiant.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Caiff gwerthoedd, fel gofalu, caredigrwydd a deall beth sy'n iawn a beth sydd ddim, eu meithrin yn effeithiol trwy'r cwricwlwm a thrwy weithgareddau beunyddiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i blant at y cwricwlwm ac at yr holl weithgareddau a ddarperir. Llwydda'r ymarferwyr yn effeithiol i greu amgylchedd cynnes a chynhaliol. Maent yn ystyried a gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol plant a datblygant ddealltwriaeth dda o anghenion pob plentyn.

Mae cymhareb briodol o ymarferwyr i blant. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn effeithiol i gynnal a chefnogi'r dysgu ac addysgu. Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr o'r gymuned i gyfoethogi profiadau plant.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad yn darparu cyfleusterau priodol sy'n cael eu defnyddio'n llawn gan yr ymarferwyr. Mae'r neuadd yn helaeth ei maint ac mae adnoddau ac offer yn cael eu trefnu'n dda ac o fewn cyrraedd y plant. Caiff yr amgylchedd dysgu ei gyfoethogi trwy arddangos gwaith plant a chreu arddangosiadau lliwgar i adlewyrchu themâu cyfredol. Nid oes unrhyw le chwarae awyr agored ond mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r traeth lleol ac o leoedd chwarae yr ysgol gynradd leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain a'i reoli'n effeithlon. Mae'r ymarferwyr arweiniol yn cynnig ymdeimlad cryf o gyfeiriad a phwrpas. Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a gweithiant yn effeithiol iawn fel tîm. Rhannant yr un gwerthoedd gan ddangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod plant yn cael y ddarpariaeth orau bosib tra yn eu gofal. Mae arferion beunyddiol wedi cael eu sefydlu'n dda a gweithiant yn effeithiol iawn. Gweithredir polisïau priodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn rhoi cefnogaeth effeithiol i'r lleoliad.  Mae'n cyfarfod yn rheolaidd a gwahoddir rhieni i fynychu cyfarfodydd.  Mae'r person cofrestredig yn cyflawni ei rôl yn gydwybodol.  Ceir systemau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith y staff, a rhoddir ffocws ar adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau iaith a ffocysu ar les plant.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r ymarferwyr arweiniol yn adnabod y lleoliad yn dda a thrafodant a chynlluniant welliannau ar y cyd gydag ymarferwyr eraill a'r pwyllgor rheoli lleol.  Mae gan ymarferwyr agwedd gadarnhaol at hunan arfarnu ac maent yn barod iawn i ystyried ffyrdd newydd o weithio.

Gwneir defnydd da o'r archwiliad blynyddol o'r ddarpariaeth er mwyn adnabod targedau perthnasol.  Mae'r lleoliad yn defnyddio barn plant, rhieni a phartneriaid. Caiff y ddarpariaeth ei monitro'n rheolaidd gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Mae meysydd i'w datblygu'n cael eu cytuno a gweithredir strategaethau perthnasol. Mae'r lleoliad yn elwa o'r gefnogaeth hon.

Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o'r archwiliad yn adnabod meysydd priodol i roi sylw iddynt, a gwneir hynny trwy gynlluniau gweithredu ymarferol.  Maent yn cynnwys cyfeiriadau at amserlenni, yr adnoddau sydd eu hangen a chyfrifoldebau unigol i gyflawni'r targedau a osodwyd.  Gwneir cynnydd cyson tuag at gyrraedd y targedau i gyflwyno holiaduron rhieni, ffurfioli'r fformat monitro ymhellach ac ymestyn cysylltiadau trosiant gyda'r ysgol gynradd.

Mae pob ymarferydd yn mynychu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.  Mae'r cysylltiadau â lleoliadau eraill, ymweliadau i arsylwi arfer dda a dyddiau hyfforddiant yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ymarferwyr drafod a rhannu syniadau.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae nifer o bartneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac ategant waith ei gilydd trwy wneud defnydd priodol o'u medrau a'u harbenigedd unigol.  Mae perthynas gynhyrchiol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol.

Mae'r lleoliad yn annog rhieni'n gryf i chwarae rhan yn addysg eu plant. Cadarnhawyd y perthnasoedd cadarnhaol yn y sgyrsiau a gafwyd gyda nhw yn ystod yr arolygiad.  Derbyniant lif da o wybodaeth trwy lyfrynnau, cylchlythyron a chyswllt beunyddiol.  Mae hysbysfwrdd yn y prif gyntedd yn cynnig gwybodaeth gyfredol. Mae'r lleoliad yn meithrin cysylltiadau agos â'r ysgol gynradd leol y mae'r plant yn trosglwyddo iddi.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r gymuned a gwasanaethau lleol.  Ceir cysylltiadau da gyda cholegau addysg bellach lleol ar gyfer mentora myfyrwyr, a chydag asiantaethau penodol i ddarparu cyfleoedd addysg oedolion ar gyfer rhieni a dargedwyd.  Ceir cysylltiadau llesol iawn gyda'r lleoliad cyfrwng Cymraeg lleol.

Gwneir defnydd da o'r cysylltiadau gydag arlunydd lleol i ddatblygu medrau paentio'r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi cael ei staffio'n ddigonol. Gwneir defnydd da o ymarferwyr a gweithredir arferion dyddiol yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae cyflenwad digonol o adnoddau sy'n hygyrch i blant. Mae hyn yn meithrin annibyniaeth. Gwneir defnydd da o gyfleusterau lleol, fel y swyddfa bost, y farchnad, eglwys a chapel, i ddarparu cyfleoedd dysgu ychwanegol i blant.

Mae gan yr ymarferwyr arweiniol a'r person cofrestredig ddealltwriaeth drylwyr o'r gyllideb a blaenoriaethant y gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd priodol o ddigwyddiadau codi arian er mwyn prynu adnoddau ychwanegol. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Mae llawer yn sgwrsio'n barod am eu hoff weithgareddau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cyfnodol**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cyfnodol |

**Copïau o'r adroddiad:**
Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |